# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 20 Chwefror 2013 i'w hateb ar 27 Chwefror 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

1. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwr ffisegol meddygfeydd meddygon teulu ym mherchnogaeth y GIG yng Nghymru. OAQ(4)0237(HSS)

2. **Lynne Neagle (Tor-faen)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad Gweinidogol o wasanaethau ambiwlans Cymru. OAQ(4)0241(HSS)

3. **Christine Chapman (Cwm Cynon)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi gweithwyr gofal iechyd i ymdrin â theuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan y diwygiadau lles presennol. OAQ(4)0230(HSS)

4. **Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi pobl â chyfrifoldebau gofalu. OAQ(4)0242(HSS)

5. **Mick Antoniw (Pontypridd)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd ymateb ambiwlansys yn Rhondda Cynon Taf. OAQ(4)0239(HSS)

6. **Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**: Am ba hyd, ar gyfartaledd, y mae parafeddygon yn aros i drosglwyddo cleifion mewn ysbytai yn ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. OAQ(4)0235(HSS)

**7. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu darpariaeth a chefnogaeth y GIG i weithwyr rheng flaen y gwasanaeth brys sy'n dioddef o Anhwylder Straen Wedi Trawma sy'n gysylltiedig â gwaith. OAQ(4)0240(HSS)

**8. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno archwiliadau iechyd i bobl dros 50 oed. OAQ(4)0234(HSS)

**9. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r adroddiadau a gafwyd gan yr Arolygiaeth Iechyd dros y 12 mis diwethaf. OAQ(4)0243(HSS)**W**

**10. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau a gymerir gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2013 i wella gofal iechyd i rai dros 50 oed yng Nghymru. OAQ(4)0232(HSS)

**11. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw gyngor ynghylch diogelwch y cyffur gwrth-iselder Citalopram. OAQ(4)0236(HSS)

**12. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth i bobl â dementia yng Nghymru. OAQ(4)0233(HSS)

**13. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i ad-drefnu byrddau iechyd lleol ar draws Cymru. OAQ(4)0231(HSS)

**14. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am gynlluniau Llywodraeth Cymru i wella gofal i'r henoed dros y 12 mis nesaf. OAQ(4)0238(HSS)

**15. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa drafodaethau diweddar a gafodd y Gweinidog gyda chynrychiolwyr yr Asiantaeth Safonau Bwyd i drafod safonau prosesu cig yng Nghymru. OAQ(4)0244(HSS)**W TROSGLWYDDWYD I'W ATEB YN YSGRIFENEDIG GAN**

**Y DIRPRWY WEINIDOG AMAETHYDDIAETH, BWYD, PYSGODFEYDD A RHAGLENNI EWROPEAIDD**

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am drafodaethau y mae wedi eu cael ar ddiwygio'r gyfraith. OAQ(4)0045(CGE)**W**

## Gofyn i Gomisiwn y Cynulliad

**1. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: A wnaiff Comisiwn y Cynulliad ddatganiad am ei gynllun strategol i ymgysylltu â mwy o bobl ifanc yng Nghymru. OAQ(4)0071(AC)

**2. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Pa drafodaethau mae'r Comisiwn wedi'u cael ynglŷn â chefnogi grwpiau trawsbleidiol. OAQ(4)0070(AC)**W**